# CYNGOR SIR

# DYDD MERCHER, 1 MAWRTH 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd R.E. Evans (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | P. Cooper | C.A. Davies | B. Davies |
| G. Davies | K. Davies | L. Davies | M. Donoghue |
| L.D. Evans | N. Evans | P.M. Hughes | R. James |
| G.H. John | D. Jones | H. Jones | A. Lenny |
| N. Lewis | A. Leyshon | K. Madge | D. Nicholas |
| M. Palfreman | B.D.J. Phillips | D. Price | B.A.L. Roberts |
| E. Skinner | D. Thomas | E.G. Thomas | G.B. Thomas |
| M. Thomas | J. Tremlett | A. Vaughan Owen | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| K.V. Broom | J.M. Charles | M.D. Cranham | D.M. Cundy |
| S.A. Curry | A. Davies | W.R.A. Davies | T.A.J. Davies |
| L.M. Davies | S.L. Davies | T. Davies | A. Evans |
| D.C. Evans | H.A.L. Evans | W.T. Evans | A.D. Harries |
| J.P. Hart | T.M. Higgins | J.K. Howell | P. Hughes-Griffiths |
| J.D. James | M. James | J.P. Jenkins | B.W. Jones |
| A.C. Jones | G.R. Jones | M.J.A. Lewis | A.G. Morgan |
| D. Owen | S.L. Rees | H.B. Shepardson | R. Sparks |
| F. Walters | P.T. Warlow | D.E. Williams | J. Williams |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

W. Walters, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**

K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 yb - 2.10 yp**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

(Noder:

- Am 12:55pm tynnwyd sylw'r Cyngor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y cyfarfod – ac, oherwydd y byddai'r cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr am 1:10pm, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn ystyried y materion a oedd yn weddill ar yr agenda.
- Hefyd cafodd y Cyngor 20 munud o egwyl am 12.55)

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Bowen, C. Davies, H. Davies, S. Godfrey-Coles, E. Rees a J. Seward.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| A. Vaughan-Owen | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei wraig yn bennaeth ar ysgol gynradd |
| L.M. Davies | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei gŵr yn dysgu fel Pennaeth Cerdd |
| N. Evans | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei merch yn gweithio i'r gwasanaeth llyfrgelloedd |
| R. Evans | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei ferch yn gweithio i'r gwasanaeth llyfrgelloedd |
| L.D. Evans | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei merch yn athrawes |
| H. Shepardson | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei ferch yn athrawes |
| H. Shepardson | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Aelod o'r Awdurdod Tân |
| G. Morgan | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Tenant yn Llynnoedd Delta |
| T. Higgins | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei nith yn gweithio yn y gwasanaeth llyfrgelloedd |
| D.C. Evans | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei wraig yn gweithio yng Nghanolfan Gyswllt y Cyngor |
| K. Broom | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Aelod o'r Awdurdod Tân |
| K. Broom | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei merch yn gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol |
| J. Hart | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei chwaer yn athrawes |
| B. Jones | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei mab yn bennaeth ysgol |
| P. Warlow | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei wraig yn gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol |
| A. Evans | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei fam yn gweithio yn Adran y Prif Weithredwr |
| F. Walters | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Aelodau o'r teulu'n athrawon |

| | | |
|---|---|---|
| A. Leyshon | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei ferch yn gweithio yn y gwasanaeth llyfrgelloedd |
| D. Nicholas | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei ferch yn gweithio yn yr Adran Gynllunio |
| C.A. Jones | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei merch-yng-nghyfraith yn gweithio ym maes Addysg |
| E. Williams | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Cadeirydd yr Awdurdod Tân |
| D. Cundy | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei berthnasau'n gweithio i'r Cyngor |
| E. Skinner | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei nith yn gweithio i'r Awdurdod |
| R. Sparks | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Mae ganddo fusnes yn y diwydiant hamdden a chaniatawyd gollyngiad iddo siarad ond nid pleidleisio |
| L. Roberts | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Aelodau o'r teulu yn gweithio i'r Cyngor |
| G.B. Thomas | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Aelod o'r Awdurdod Tân |
| M. Palfreman | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Mae ganddo fusnes ymgynghoriaeth gofal cymdeithasol – Caniatawyd gollyngiad iddo siarad ond nid pleidleisio |
| B. Davies | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei wraig yn gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol |
| G. John | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Aelodau o'r teulu'n gweithio i'r Awdurdod |
| T.A.J. Davies | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei chwaer-yng-nghyfraith yn gweithio i'r Cyngor |
| Andrew Davies | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei wraig yn athrawes |
| J. James | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei fab-yng-nghyfraith yn gweithio i'r Awdurdod |
| R. James | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Ei bartner yn gweithio i'r Awdurdod |
| P.M. Hughes | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 | Aelod o'r teulu'n gweithio i'r Cyngor |
| M. Charles | 7.1 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Rob James, Deryk Cundy, Andrew Davies ac Arwel Davies | Yn dirfeddiannwr ac wedi mynegi barn am y mater yn flaenorol. Caniatawyd gollyngiad iddo siarad ond nid pleidleisio |
| C.A. Davies | 7.1 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Rob James, Deryk Cundy, Andrew Davies ac Arwel Davies | Caniatawyd gollyngiad iddi siarad ond nid pleidleisio |

| | | |
|---|---|---|
| H. Jones | 7.1 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Rob James, Deryk Cundy, Andrew Davies ac Arwel Davies | Caniatawyd gollyngiad iddo siarad ond nid pleidleisio |
| W.T. Evans | 7.1 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Rob James, Deryk Cundy, Andrew Davies ac Arwel Davies | |
| M. Charles | 7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies | Yn dirfeddiannwr – caniatawyd gollyngiad iddo siarad a phleidleisio |
| C.A. Davies | 7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies | Caniatawyd gollyngiad iddi siarad a phleidleisio |
| A Davies | 7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies | Caniatawyd gollyngiad iddo siarad a phleidleisio |
| B. Davies | 7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies | Caniatawyd gollyngiad iddo siarad a phleidleisio |
| T.A.J. Davies | 7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies | Yn cadw gwartheg ar y fferm. Caniatawyd gollyngiad iddo siarad a phleidleisio |
| H.A.L Evans | 7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies | Caniatawyd gollyngiad iddi siarad a phleidleisio |
| L.D. Evans | 7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies | Aelod agos o'r teulu yn ffermio. Caniatawyd gollyngiad iddi siarad a phleidleisio |
| W.T. Evans | 7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies | Caniatawyd gollyngiad iddo siarad a phleidleisio |

| | | |
|---|---|---|
| J.K. Howell | 7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies | Yn ffermwr. Caniatawyd gollyngiad iddo siarad a phleidleisio |
| H. Jones | 7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies | Caniatawyd gollyngiad iddo siarad a phleidleisio |
| J. Lewis | 7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies | Yn cadw gwartheg ar y fferm. Caniatawyd gollyngiad iddi siarad a phleidleisio |
| G.B. Thomas | 7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies | Caniatawyd gollyngiad iddo siarad a phleidleisio |
| S.M. Allen | 7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies | Ei gŵr yn filfeddyg ac yn ymwneud â dileu a thrin TB |

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bresennol mewn ymweliad diweddar gan Dywysog a Thywysoges Cymru â Gorsaf Ambiwlans Awyr Cymru yn Nafen, Llanelli,
- Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Magda Smith, Marianna Pilichowska, Tom Vaughan-Jones, Jacob Eatly ac Iestyn Davies, aelodau'r Cyngor Ieuenctid a oedd yn gweithio tuag at eu Gwobr Cysgodi Cynghorwyr a oedd yn cydnabod dealltwriaeth pobl ifanc o ddemocratiaeth leol a'u rhan ynddi,
- Estynnodd y Cynghorydd Gareth Thomas ei longyfarchiadau i Ysgol Gynradd yr Hendy ar ennill cystadleuaeth Carol yr Ŵyl 2022 ar raglen Heno.

## 4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 25 IONAWR 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2023 yn gofnod cywir.**

## 5. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN A MATERION CYNLYNOL:-

## 5.1. STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW 2023/24 I 2025/26

(NODER: Roedd y Cynghorwyr A Vaughan Owen, L.M. Davies, N. Evans, R. Evans, L.D. Evans, H. Shepardson, G. Morgan, T. Higgins, D.C. Evans, K. Broom, J. Hart, B. Jones, P. Warlow, A. Evans, F. Walters, A. Leyshon, D. Nicholas, C.A. Jones, E. Williams, D. Cundy, E. Skinner, R. Sparks, L. Roberts, G. Thomas, M. Palfreman, B. Davies, G. John, T.A.J. Davies, Andrew Davies, J. James, R. James a P.M. Hughes, wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, ac arhosodd y cynghorwyr hynny yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth ynghylch y mater hwn a'r bleidlais ddilynol)

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror, 2023 (gweler Cofnod 5), wedi ystyried Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26 a'i fod wedi gwneud nifer o argymhellion yn ei chylch, fel y manylwyd arnynt yn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, i'w hystyried gan y Cyngor.

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, ar ran y Cabinet, pryd y bu'n manylu ar gefndir y cynigion ar gyfer y gyllideb oedd yn cael eu cyflwyno at ystyriaeth y Cyngor, ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y gyllideb.

Esboniwyd bod proses gyllideb Llywodraeth Cymru yn llawer hwyrach na'r arfer, a bod yr adroddiad oedd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor y diwrnod hwnnw wedi ei baratoi cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ffigurau'r setliad terfynol ar 28 Chwefror. Serch hynny, bu'n bosibl adolygu rhai o brif elfennau rhagdybiaethau a dyraniadau cyllideb y Cyngor. Roedd hynny wedi golygu bod modd ailedrych ar rai o'r cynigion gwreiddiol yn yr amlinelliad o'r gyllideb ac ystyried opsiynau pellach a'u cyflwyno fel rhan o'r adroddiad i'r Cyngor. Ar sail Cymru gyfan, er bod ffigurau'r setliad amodol yn adlewyrchu cynnydd o 7.9% yn y cyllid, a bod Sir Gaerfyrddin wedi cael codiad o 8.5%, roedd ffigur y setliad terfynol hefyd wedi rhoi £10.7k yn ychwanegol i Sir Gaerfyrddin a fyddai'n cael ei ychwanegu at ei chyllideb wrth gefn.

Oherwydd bod y setliad terfynol wedi'i gyhoeddi'n hwyr, dywedwyd wrth y Cyngor bod yr adroddiad yn rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, ar y cyd â'r Arweinydd, y Prif Weithredwr a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, wneud unrhyw addasiadau yn ôl yr angen, ar ôl derbyn y setliad terfynol. Er bod y Cyngor wedi cael gwybod am y newidiadau hynny y diwrnod hwnnw, byddai angen i'r Cyfarwyddwr ddilyn yr addasiadau hynny drwodd o hyd yn y tablau cyllideb yn dilyn ei gyfarfod. Roedd y Cyfarwyddwr hefyd wedi addasu rhai o'r ffigurau eraill yn y strategaeth fel sy'n arferol wrth i fwy o wybodaeth a gwybodaeth gliriach fod ar gael, ac mae'r dilysiad cyfan presennol wedi ychwanegu mwy na £30m at y gyllideb.

Dywedodd yr Aelod Cabinet er i'r adroddiad gadw'r cyflog tybiedig o 5% am 2023/24 ar gyfer y Cyd-gyngor Cenedlaethol, yn ogystal â staff addysgu, bod y cyflogwyr cenedlaethol mewn perthynas â staff y Cyd-gyngor Cenedlaethol, yn dilyn cyfarfod y Cabinet ar 20 Chwefror, wedi gwneud cynnig ariannol i'r Undebau Llafur oedd yn debyg i'r un a wnaed yn 2022/23. Amcangyfrifwyd bod y cynnig hwnnw yn adlewyrchu cynnydd o 6.7% gan arwain at ddiffyg o 1.7% oedd

yn cyfateb i tua £3m ar gyllidebau net. Dim ond yn ddiweddar yr oedd y cynnig hwnnw wedi'i wneud ac felly nid oedd Llywodraeth Cymru wedi gallu ystyried sut y gallai gael ei gefnogi o ystyried y ffaith ei fod unwaith eto yn uwch na bron pob un o ragdybiaethau Awdurdodau Lleol. O ganlyniad, barnwyd ei bod yn ddoeth i'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, ynghyd â'r Cyfarwyddwr, ystyried sut i ddarparu ar gyfer y pwysau cyllidebol ychwanegol, yn enwedig gan nad oedd cyllid Llywodraeth Cymru yn glir a bod y Cyfarwyddwr wedi nodi y byddai angen i'r Cyngor ddefnyddio cyfuniad o'r mesurau canlynol i ariannu'r diffyg, petai'n cael ei dderbyn:

- Dyrannu £1m o'r gyllideb wrth gefn,
- Defnyddio'r addasiad o ran ailbrisio Ardrethi Annomestig Cenedlaethol, yr amcangyfrifir ei fod oddeutu £500k a,
- Dyrannu £1.5m o falansau cyffredinol, os nad oedd modd adfer y cyllid o danwariant yn ystod y flwyddyn,

Er nad oedd y cynnig uchod yn cael ei ystyried yn senario delfrydol, ystyrid ei fod yn ddull ymarferol a darbodus ar hyd o bryd yn y broses gyllideb. Hefyd, bu'n rhaid i'r Awdurdod gydnabod y risg bosibl y byddai trafodaethau'n mynd ymhellach yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

O ran dyfarniadau cyflog athrawon, roedd cynnig o 1.5% cyfunedig a 1.5% anghyfunol wedi cael ei gyflwyno gan Weinidog Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r setliad cyflog a oedd yn berthnasol o fis Medi diwethaf. Gan fod yr Awdurdod wedi cynnwys cynnydd o 5% yn ei strategaeth gyllideb, roedd diffyg posibl o tua £1.9m. Er bod disgwyl y byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu rhan sylweddol o'r cynnig ychwanegol, nid oedd dim wedi'i gadarnhau'n ffurfiol ar hyn o bryd a byddai angen monitro'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn, wrth i'r trafodaethau gael eu cwblhau.

Dywedwyd wrth y Cyngor yr ymgynghorwyd yn eang ynghylch cynigion y gyllideb am bron i chwe wythnos, a bod tua 2,000 o ymatebion wedi dod i law. Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag Arweinydd yr Wrthblaid a'u Llefarydd dros Adnoddau. Hefyd, roedd 80 o bobl ifanc o ysgolion uwchradd y Cyngor wedi cyfarfod ag aelodau cabinet a swyddogion i fynegi eu barn am flaenoriaethau'r gyllideb. Roedd yn amlwg bod pawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn gwerthfawrogi bod yn rhaid gwneud dewisiadau anodd.

Fel y nodwyd uchod, dywedwyd wrth y Cyngor fod newidiadau i rai o'r rhagdybiaethau allweddol megis cyfrifiadau cyflog ac incwm, prisiau ynni wedi'u diweddaru yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf, a rhyddhau taliadau cyfalaf, wedi golygu bod modd gwneud rhai newidiadau i gynigion y gyllideb derfynol, fel y nodir ym mharagraff 3.2.5 yr adroddiad, a bod cyfanswm o bron i £1.8m ar gael yn sgil hynny i wneud newidiadau i gyllideb y flwyddyn nesaf. Yn unol â hynny, roedd y Cabinet wedi argymell, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r swm hwnnw, bod yr addasiadau canlynol yn cael eu gwneud i Strategaeth y Gyllideb, a oedd yn ystyried y broses ymgynghori ac yn ymateb i'r adborth a gafwyd gan y cyhoedd a chynghorwyr:

<u>Yn gyntaf:</u>

Bod £1.3 miliwn yn cael ei ddarparu i ddileu neu leihau'r 9 gostyngiad penodol yn y gyllideb ym mharagraff 3.2.5, gan gynnwys:

- cadw Canolfan Hamdden Sanclêr ar agor wrth i ni weithio gyda'r gymuned i greu llwybr ariannol hyfyw ar ei chyfer,

- rhoi 1/4 miliwn o bunnoedd yn ôl i'r gwasanaethau plant ac ieuenctid er mwyn buddsoddi yn yr agenda atal,

- lleihau'r effaith ar y gwasanaeth cerdd i ysgolion a'r gwasanaethau anabledd dysgu.

- lleihau'r gofynion ariannol ar ysgolion £700,000, a hefyd gohirio am flwyddyn unrhyw newidiadau i'r polisi plant sy'n codi'n 4 oed, er mwyn sicrhau ymgynghoriad ehangach a chaniatáu amser priodol i gynllunio unrhyw newidiadau posibl.

<u>Yn ail:</u>

• Gohirio codi tâl yn y 9 maes parcio sy'n rhad ac am ddim ar hyn o bryd, er mwyn rhoi amser i'r Awdurdod asesu ac ystyried yr effaith ehangach ar yr ardaloedd unigol. Gwerth gohirio hyn ym mlwyddyn 1 oedd £10k a

• Tynnu'n ôl y gostyngiad o £22k yng nghyllideb yr Iaith Gymraeg o dan yr Adain Polisi Corfforaethol, a oedd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau a gwaith ac ymchwil sy'n gysylltiedig â chomisiynu.

<u>Yn drydydd,</u>
bod £385 yn cael ei ddefnyddio i gefnogi busnesau a theuluoedd oedd yn gweithio'n galed drwy gyfyngu ar y cynnydd mewn taliadau meysydd parcio a phrydau ysgol i 5%, sef hanner y gyfradd chwyddiant ar hyn o bryd.

<u>Yn bedwerydd</u>,
Wrth ymateb i bryderon ynghylch priffyrdd a chanol trefi, bod £262k yn cael ei bennu'n uniongyrchol ar gyfer y blaenoriaethau hyn. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gweld crebachiad sylweddol yn ei chyllidebau cyfalaf, ac o ganlyniad roedd rhywfaint o'r gefnogaeth a ddarperid yn y gorffennol i waith llecynnau cyhoeddus wedi diflannu yn y blynyddoedd diwethaf – bydd y dyraniad cyllid hwn o leiaf yn lliniaru hynny'n rhannol.

Yn olaf, ac yn bwysicach fyth, roedd hynny'n gadael digon o arian i ostwng y cynnydd yn y dreth gyngor i 6.8% ar gyfer y flwyddyn nesaf, a chredwyd bod hynny'n taro'r cydbwysedd cywir o ran diogelu gwasanaethau hanfodol y mae ein pobl yn dibynnu arnynt ac yn disgwyl i'r Cyngor eu darparu o ddydd i ddydd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai mabwysiadu'r cynigion yn galluogi'r Cabinet i gyflwyno cyllideb deg a chytbwys ar gyfer y flwyddyn nesaf, a oedd yn ymateb i'r sylwadau oedd wedi deillio o'r ymgynghoriad. Pe bai'r holl gynigion sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad a'u crynhoi i'r Cyngor Sir yn cael eu rhoi ar waith, cadarnhaodd y byddai Strategaeth Gyllideb gynaliadwy a hyfyw yn cael ei darparu a fyddai'n gwneud y canlynol:

- Ymateb i'r ymgynghoriad,
- Sicrhau hyd y gellid fod lefel a safonau'r gwasanaethau'n cael eu cynnal,
- Cydnabod bod trigolion yn ei chael hi'n anodd yn yr hinsawdd bresennol a sicrhau bod gwasanaethau craidd yn cael eu diogelu,
- Paratoi'r Awdurdod, i'r graddau mwyaf posibl, am yr ansicrwydd sylweddol yn y dyfodol.

Fodd bynnag, dywedodd hefyd, yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, fod y dyfarniad cyflog diweddar yn risg ariannol sylweddol i'r gyllideb yn y dyfodol, ac er bod y gost ychwanegol honno wedi cael ei rheoli yn y flwyddyn bresennol, roedd lefel y gost ychwanegol a'r ansicrwydd yn peri risg sylweddol i gynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor canolig yn y blynyddoedd 2025/26 ymlaen, yn dibynnu ar setliadau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol a fyddai'n golygu bod angen monitro'r sefyllfa'n ofalus yn ystod y blynyddoedd nesaf.

I gloi, cynigiodd yr Aelod Cabinet, ar ran y Cabinet, argymhellion Strategaeth Gyllideb 2023/24 - 2025/26 fel y nodwyd yn yr adroddiad, gan bennu Treth Gyngor Band D ar gyfer 2023/24 o £1,490.97, sef cynnydd o 6.8 %.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu a chymeradwyo'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:**

**“y Strategaeth Gyllideb ar gyfer 2023/24, sy'n cynnwys y newidiadau ym mharagraff 4.1.4;**

**Bod Treth Gyngor Band D yn 2023/24 i’w gosod ar £1,490.97 (cynnydd o 6.80%);**

**Dileu cynigion arbedion penodol fel y nodir ym mharagraff 3.2.5 o'r adroddiad gan wneud y newidiadau canlynol:**

**i) Gohirio cyflwyno taliadau newydd mewn 9 maes parcio sy'n rhad ac am ddim tan 2024/25 er mwyn i'r awdurdod asesu ac ystyried yr effaith ehangach ar yr ardaloedd unigol fesul achos. Gwerth gohirio hyn ym mlwyddyn 1 yw £10k,**

**ii) Dileu'r arbedion o £22k ar gyfer yr Iaith Gymraeg o'r Gyllideb Polisi Corfforaethol**

**cyfyngu ar godi'r incwm a geir yn sgil prydau ysgol a meysydd parcio fel y nodir ym mharagraff 3.2.5;**

**Diwygio'r cyllid a ddyrennir ar gyfer priffyrdd a chanol trefi, fel y nodir ym mharagraff 3.2.5, i £262k i ddarparu ar gyfer y ddau newid a gynigiwyd gan y Cabinet**

**y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a fydd yn sylfaen i gynllunio ariannol ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod;**

**Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Aelod**

**Cabinet dros Adnoddau, yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol o ganlyniad i setliad terfynol Llywodraeth Cymru a oedd i'w gyhoeddi ar 1 Mawrth 2023".**

**5.2. RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD 2023/24 - 2027/28.**

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2023 (gweler Cofnod 6) wedi ystyried Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd (Cronfa'r Cyngor) 2023/24 hyd at 2027/28 gan gymryd i ystyriaeth yr ymgynghoriad a gynhaliwyd a'r goblygiadau refeniw oedd yn deillio o'r rhaglen gyfalaf.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau i'r Cyngor, ar ran y Cabinet, yr adroddiad ar y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd a fyddai'n buddsoddi £265m dros y pum mlynedd nesaf; £73m ohono ar gyfer yr ymrwymiad parhaus i wella ein hadeiladau ysgolion, £27m ar gyfer prosiectau Adfywio i hybu gweithgarwch economaidd, £86m i brosiectau a gefnogir gan y Fargen Ddinesig (sy'n cynnwys canolfan hamdden newydd ar gyfer Llanelli), a £59m i wella'r seilwaith economaidd lleol a'r amgylchedd ehangach.
Roedd y rhaglen yn darparu pecyn cynhwysfawr ac eang a gefnogir gan gyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, ac adnoddau'r Cyngor ei hun.

Nodwyd bod y rhaglen gyfalaf fanwl dros dro wedi cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 30 Ionawr at ddibenion ymgynghori. Yn dilyn codi pryderon am ddiffyg darpariaeth ar gyfer atal llifogydd a diffyg arian grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mesurau datgarboneiddio, roedd y rhaglen wedi'i diwygio i gynnwys ymrwymiadau pellach yn y meysydd hynny. Ni chodwyd unrhyw bryderon eraill yn ystod yr ymgynghoriad hwn ac roedd rhan o gofnod perthnasol y cyfarfod wedi'i chynnwys yn Atodiad B er gwybodaeth.

Dywedwyd, gan fod y rhaglen gyfalaf flaenorol yn canolbwyntio cymorth i fusnesau ar yr angen i roi hwb i'r economi leol, bod hynny'n parhau i fod yn ffocws wrth i'r Cyngor barhau i gynnal cymorth i'r economi leol gyda buddsoddiadau mawr mewn prosiectau ffyniant bro a chymorth parhaus i fuddsoddi mewn seilwaith.

Roedd y rhaglen yn cynnwys tri phrosiect trawsnewidiol parhaus, yr oedd pob un yn canolbwyntio ar brif dref wahanol.

Yn gyntaf - roedd y cytundeb i ddechrau adeiladu Parth Un datblygiad Pentre Awel yn Llanelli wedi cael ei lofnodi, am bris contract o £86m gan greu pum adeilad pwrpasol sy'n gysylltiedig â "stryd", a fyddai hefyd yn cynnwys canolfan gweithgareddau dŵr, neuadd chwaraeon, ystafelloedd chwaraeon a ffitrwydd amlbwrpas a champfa, cyfleusterau addysg a hyfforddiant, darpariaeth glinigol ac ymchwil, lle arloesi a lle i fusnesau. Byddai'r prosiect yn trawsnewid tirwedd ac economi de Llanelli, Sir Gaerfyrddin, a rhan fwy o orllewin Cymru.

Yn ail, byddai hwb gwerth £19.6m yn cael ei ddarparu yng nghanol tref Caerfyrddin gan gynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol y dref wrth i'r Cyngor adfer yn dilyn y pandemig, gan ddarparu cartref i gasgliad celf y Sir, cyfleusterau iechyd ac addysg, yn ogystal â bod yn gartref newydd i Hwb Caerfyrddin yr

awdurdod ac unedau manwerthu.  Byddai'r buddsoddiad hefyd yn gatalydd ar gyfer y gwaith ehangach i adfywio canol y dref.

Yn drydydd, byddai buddsoddiad gwerth £19m i gwblhau Llwybr Dyffryn Tywi yn ardal Dinefwr yn creu manteision sylweddol i'r economi wledig ac yn gwella iechyd a llesiant trigolion.

Dywedodd yr Aelod Cabinet, yn ogystal â'r prosiectau blaengar mawr hyn, y byddai'r Cyngor yn parhau i gefnogi ei raglenni buddsoddi parhaus mewn seilwaith a'r portffolio eiddo ym mlwyddyn pump y rhaglen:

Byddai'r rhaglen yn parhau i gefnogi Ysgolion a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy a oedd, yn y blynyddoedd diwethaf, wedi arwain at gwblhau adeiladau ysgolion newydd ac adnewyddu ysgolion ledled y sir. Yn fwyaf diweddar, roedd hyn yn cynnwys agor Ysgol Gynradd newydd Gorslas ac Ysgol Gynradd newydd Pum Heol ac roedd Ysgol Pen-bre yn cael ei hadeiladu ar hyn o bryd.  Felly gwnaed darpariaeth yn y rhaglen ar gyfer datblygiadau dichonoldeb pellach, wrth i'r awdurdod barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i lunio cynlluniau i gymunedau eraill ledled y sir elwa o'r buddsoddiad hwn mewn ysgolion a chyflwyno profiad addysg yr 21ain Ganrif ar gyfer ein plant a chenedlaethau'r dyfodol yn yr 21ain Ganrif.

Nodwyd bod gwaith dichonoldeb o'r fath wedi bod yn mynd rhagddo ym mlwyddyn ariannol 2022/23 ar sawl ysgol, ac felly nid oedd y prosiectau hynny wedi'u rhestru fel rhan o'r rhaglen newydd.  Byddai ffrwyth y gwaith hwnnw'n cael ei weld yn y dyfodol wrth i'r prosiectau sicrhau cyllid grant gan y llywodraeth a chael cymorth yn y blynyddoedd nesaf.  Nodwyd hefyd nad oedd yr ysgolion cynradd yn Rhydaman, a oedd yn rhan o'r rhaglen, wedi'u rhestru gan eu bod yn rhan o geisiadau Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM), ac felly byddent yn cael eu darparu ar y cyd â phartneriaid yn y sector preifat a fyddai'n cael eu hariannu trwy refeniw maes o law.

Dywedodd yr Aelod Cabinet, yn ogystal â'r prosiectau blaengar a amlinellwyd, y byddai'r Awdurdod yn ceisio parhau i gefnogi ein rhaglenni treigl parhaus o fuddsoddiadau mewn seilwaith a phortffolio eiddo'r awdurdod ym mlwyddyn pump y rhaglen, hynny yw:

£2.5m ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.
£250k i wella Diogelwch Ffyrdd.
£250k ar gyfer draenio priffyrdd
£400k ar gyfer cryfhau pontydd
£600k ar gyfer Adnewyddu Priffyrdd yn barhaus
£400k ar gyfer Goleuadau Cyhoeddus
£500k ar gyfer Gwaith Cyffredinol Addysg gan gynnwys addasiadau i gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb
£2m ar gyfer y Gronfa Prosiect Adfywio Strategol.
£3m ar gyfer Cynnal a Chadw Cyfalaf ar gyfer buddsoddi yn ein hystâd eiddo.

Gyda'i gilydd, dros y pum mlynedd nesaf, byddai mwy na £48m yn cael ei fuddsoddi yn y rhaglenni treigl hyn.

Nodwyd hefyd fod bwriad i barhau â'r dyraniad blynyddol o £66k i Hawliau Tramwy a Chilffyrdd yn 2026/27, a hynny i gydnabod rhwymedigaethau'r Cyngor yn y maes hwnnw a'r manteision iechyd ac amgylcheddol cymunedol ehangach a ddarperir gan yr adnoddau gwerthfawr hyn.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai buddsoddiadau pellach hefyd yn cael eu gwneud ar draws y rhaglen fel a ganlyn:

O ran Addysg - byddai arian ychwanegol ar gael i gwblhau'r cilfannau bysiau yn Ysgol Dyffryn Taf. Byddai cymeradwyaeth yn cael ei cheisio i gynnwys rhagor o gilfannau bysiau mewn ysgolion eraill, sef: Glanymôr, Dyffryn Aman ac i wella rheoli traffig yn Ysgol Bro Myrddin. Pecyn ariannol newydd gwerth £1.7m. Oherwydd bod y prosiectau hyn yn frys byddent i gyd yn cael eu cynnwys ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen newydd. Yn ogystal, o ystyried yr angen brys am ddarparu uned Anhwylder Sbectrwm Awtistig ar gyfer disgyblion oedran uwchradd yn nwyrain y sir, roedd cynnig am uned o'r fath yn ardal Llanelli/Porth Tywyn hefyd wedi'i gynnwys yn y flwyddyn gyntaf - 2023/24, gwerth £2m.

O ran Cymunedau - yn ogystal â'r cyllid parhaus ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, y soniwyd amdano eisoes, o fewn y portffolio hamdden byddai cae 4G yn cael ei ddarparu yng Nghanolfan Hamdden Dyffryn Aman. Byddai gwaith hefyd yn dechrau ar ailddatblygu Oriel Myrddin gan gyd-fynd â'r prosiectau diwylliannol eraill a gwblhawyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, megis Archif newydd Sir Gaerfyrddin – Y Stordy, a gwaith ailddatblygu Amgueddfa'r Sir yn Abergwili a Pharc Howard.

O ran yr Amgylchedd - byddai £75k yn cael ei ddarparu yn 2023/24 i roi arian cyfatebol ar gyfer gwaith rheoli llifogydd a £1m ar gyfer gwaith lliniaru llifogydd. Byddai £4.7m yn cael ei ddarparu ar gyfer cerbydau sbwriel ac ailgylchu newydd yn lle'r rhai presennol, a oedd yn cael ei gynnwys fel rhan o'r ymrwymiad i gyflwyno casgliadau didoli ac ailgylchu o dŷ i dŷ.
Wrth i'r awdurdod geisio symud i economi carbon isel byddai ei briffyrdd yn parhau i chwarae rhan bwysig, felly, i gydnabod eu pwysigrwydd i'r economi leol, ac i liniaru diffyg cymorth gan Lywodraeth Cymru yn benodol ar gyfer buddsoddi mewn priffyrdd, roedd swm o £1m o gyllid newydd yn cael ei gynnwys yn y rhaglen a ariannwyd drwy fenthyca ar gyfer gwelliannau i briffyrdd. Roedd hynny'n ychwanegol at y rhaglen dreigl flynyddol barhaus gwerth £600k ac yn cyd-fynd â'r buddsoddiadau sylweddol mewn gwelliannau i briffyrdd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

O ran Datgarboneiddio, yn ystod y flwyddyn flaenorol roedd y Cyngor wedi cyflwyno £500k i ddatgarboneiddio ei ystâd adeiledig a byddai'n parhau â'r buddsoddiad hwnnw gyda £500K arall yn 2023/24. Roedd hynny'n ychwanegol at y grantiau a oedd ar gael i fusnesau lleol gyflwyno mesurau ynni adnewyddadwy a oedd yn cael eu rhoi yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan ddangos ymrwymiad Sir Gaerfyrddin i'r agenda newid hinsawdd a datgarboneiddio.

Roedd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn hanfodol i ffyrdd o weithio yn y dyfodol; felly, roedd y rhaglen yn cynnwys £2.4m yn y maes hwn. Mae'n cynnwys cyllid blynyddol o £200k i gefnogi prosiectau trawsnewidiol digidol ar draws gwasanaethau'r cyngor. Byddai'r Sir hefyd yn gweld budd Prosiect Digidol Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Yn gyffredinol, roedd y rhaglen gyfalaf arfaethedig yn ymrwymo'r Cyngor i fuddsoddiad sylweddol dros y pum mlynedd drwy fanteisio ar gyfleoedd cyllido a chael yr arian mwyaf posibl o ffynonellau allanol posibl. Byddai cyfuniad o gynlluniau newydd a phresennol, yn unol â'r weledigaeth gorfforaethol, yn datblygu'r economi leol, yn creu swyddi ac yn gwella ansawdd bywyd ein trigolion ac ymwelwyr â'r sir, gan ddiogelu adnoddau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Nodwyd mai oddeutu £168m o arian y Cyngor Sir oedd ar gael ar gyfer y rhaglen ar hyn o bryd, a'i fod yn cynnwys benthyca, wedi'i gynnal a heb ei gynnal, cronfeydd wrth gefn a chyllid refeniw uniongyrchol, a Derbyniadau Cyfalaf yn sgil gwerthu asedau nad oedd eu hangen mwyach a byddai grantiau cyfalaf a chyfraniadau o £100m yn dod o gyrff arian grant allanol. Fel rhan o setliad eleni, roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu ffigurau dangosol o ran cyllid cyfalaf cyffredinol hyd at 2024/25, fel yr oedd yn cael ei adleisio yn y rhaglen. Roedd y cyllid ar gyfer blynyddoedd tri, pedwar a phump y rhaglen yn seiliedig ar lefel dybiedig o gymorth sy'n cyfateb i'r hyn a dderbyniwyd yn 2024/25 wrth symud ymlaen. Nodwyd bod cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 £55K yn llai na'r hyn roeddid yn ei ddisgwyl o'r blaen. Roedd lefel gyffredinol yr arian tybiedig ym mlynyddoedd diweddarach y rhaglen yn fwy na'r ymrwymiadau presennol. Byddai'r cyllid nas ymrwymwyd hwn yn caniatáu hyblygrwydd i'r awdurdod helpu â phwysau yn y dyfodol a fyddai'n gysylltiedig â chostau cynyddol a heriau eraill.

Fel y nodwyd o ran y Strategaeth Cyllideb Refeniw, roedd y setliad terfynol wedi'i dderbyn ar 28 Chwefror ac roedd swyddogion wedi asesu'r prif ffynonellau cyllid ar gyfer y rhaglen gyfalaf ac wedi cadarnhau nad oeddent wedi newid ers y setliad amodol. Fodd bynnag, byddai angen gwneud gwaith pellach i asesu grantiau cyfalaf uniongyrchol ac unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r rheiny ac, os oes angen, byddai'r argymhelliad terfynol yn yr adroddiad yn mynd i'r afael â hyn.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod manylion cynhwysfawr y rhaglen arfaethedig wedi'u nodi yn Atodiad A i'r adroddiad a byddai swyddogion yn parhau i fonitro cynlluniau unigol a'r cyllid sydd ar gael. Tra byddai angen rheoli'r ddwy elfen hyn yn agos i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cyflawni'n llawn, cadarnhaodd fod y rhaglen yn cael ei chyllido'n llawn am y pum mlynedd.

Nodwyd bod Atodiad C, a oedd yn ofynnol gan gôd cyllid cyfalaf prudential, yn cynnwys dogfen Strategaeth Gyfalaf y Cyngor, ac yn manylu ar y cyd-destun tymor hir o ran y penderfyniadau ar wariant cyfalaf a buddsoddi, ac yn rhoi ystyriaeth briodol i risg a gwobrwyo, a'r effaith ar gyflawni canlyniadau blaenoriaethol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y Rhaglen Gyfalaf yn ceisio manteisio ar gyfleoedd a'i bod yn gynhwysfawr ac yn uchelgeisiol, gan ganolbwyntio ar ysgogi'r economi a darparu cyfleusterau o ansawdd uchel i'n trigolion.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:**

**“5.2.1 Cymeradwyo'r cyllid a'r Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd, fel y'u nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad, gyda 2023/24 yn**

**gyllideb bendant a 2024/25 i 2027/28 yn gyllidebau amhendant/dangosol;**

**5.2.2 Bod y rhaglen yn cael ei hadolygu, yn ôl yr arfer, oni lwyddir i gael y cyllid disgwyliedig gan gyrff allanol neu'r Cyngor Sir;**

**5.2.3 Bod y Strategaeth Gyfalaf, fel y manylir arni yn Atodiad C, yn cael ei chymeradwyo;**

**5.2.4 Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol o ganlyniad i'r setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru a oedd i'w gyhoeddi ar 1 Mawrth 2022".**

## 5.3. POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH 2023-24

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror, 2023 (gweler Cofnod 7) wedi ystyried Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24.

Roedd yr adroddiad wedi'i lunio yn unol â gofynion Côd Ymarfer diwygiedig CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys 2017, lle roedd y Cyngor wedi cytuno'n flaenorol i gynnal Polisi Rheoli'r Trysorlys a oedd yn manylu ar bolisïau ac amcanion gweithgareddau'r Awdurdod o ran Rheoli'r Trysorlys. Nodwyd ei bod hefyd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol yr oedd yn ymwneud â hi. Yn ogystal, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:**

**5.3.1 Bod Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023-24 a'r argymhellion a nodwyd ynddynt yn cael eu cymeradwyo;**

**5.3.2 Bod Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, y Dangosyddion Darbodaeth, y Datganiad ynghylch y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, y Strategaeth Fuddsoddi, a'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo.**

## 5.4. STRATEGAETH GORFFORAETHOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN 2022-27

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror 2023 (gweler Cofnod 6) wedi ystyried Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-2027, a oedd yn cynnwys amcanion llesiant y Cyngor ac yn nodi trywydd a blaenoriaethau'r sefydliad yn ystod cyfnod y weinyddiaeth bresennol, gan hefyd ddarparu'r fframwaith cyflawni ar gyfer gweledigaeth ac ymrwymiadau'r Cabinet

yn ystod y cyfnod. Byddai'r strategaeth newydd yn canolbwyntio ar nifer llai o amcanion yn seiliedig ar y boblogaeth gan nodi'r blaenoriaethau thematig, blaenoriaethau gwasanaethau a galluogwyr busnes craidd y byddai'r Cyngor yn ceisio eu symud yn eu blaen yn ystod y cyfnod hwnnw.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Cabinet:**

**“bod Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-2027 yn cael ei chymeradwyo”.**

## 6. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:

### 6.1. 30 IONAWR, 2023

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Ionawr, 2023.**

### 6.2. 13 CHWEFROR 2023

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2023.**

## 7. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-

### 7.1. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN CYNGHORWYR ROB JAMES, DERYK CUNDY, ANDREW DAVIES AC ARWEL DAVIES

[NODER:
Roedd y Cynghorwyr M. Charles, C.A Davies a H Jones wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, a chaniatawyd gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau iddynt siarad ar yr eitem, ac arhosodd y cynghorwyr hynny yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth ond wedyn gadael y cyfarfod yn ystod y bleidlais]

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Rob James, Deryk Cundy, Andrew Davies ac Arwel Davies:-

“Bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cefnogi pryderon trigolion a busnesau lleol ynglŷn â'r cynnig i godi peilonau i gysylltu Parc Ynni Mithil â'r Grid Cenedlaethol yn Sir Gaerfyrddin; yn credu y dylai Bute Energy weithio gyda thirfeddianwyr i osod y ceblau dan ddaear; a'n bod ni, fel Awdurdod, yn ysgrifennu'n ffurfiol at y cwmni ynni i gefnogi'r pryderon a godwyd.”

Eiliwyd y cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigwyr ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

**PENDERFYNODD y Cyngor gefnogi'r Cynnig.**

## 7.2. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN CYNGHORWYR GARETH THOMAS, ANN DAVIES, ROB JAMES AC CRISH DAVIES

[NODER:

Roedd y Cynghorwyr M. Charles, C.A Davies, A. Davies, B. Davies, T.A.J. Davies, H.A.L. Davies, L.D. Evans, W.T. Evans, J.K. Howell, H. Jones, J. Lewis a G.B. Thomas wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, a chaniatawyd gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau iddynt siarad a phleidleisio ar yr eitem, ac arhosodd y cynghorwyr hynny yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth a'r bleidlais.

Gadawodd y Cynghorydd S.M. Allen, a oedd wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, Siambr y Cyngor ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ddilynol].

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies:-

“Strategaeth ddileu effeithiol ar gyfer TB buchol

Mae'r cyngor hwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfle a ddaw yn sgil y strategaeth dileu TB buchol newydd i ganfod ei heffeithiolrwydd o ran lles anifeiliaid (bywyd gwyllt a da byw), iechyd y cyhoedd a'r gost.

Mae lefelau heintio cyson uchel, ei effaith ar les anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd ynghyd â'r gost gynyddol i'r pwrs cyhoeddus yn awgrymu nad yw'r mesurau presennol yn addas i'r diben.

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru nodi'r pwyntiau canlynol a chymryd camau yn eu cylch: -

- Mae TB buchol yn glefyd trosglwyddadwy y dylid mynd i'r afael ag ef yn gyfannol fel mater lles bywyd gwyllt ac anifeiliaid fferm, gan ddefnyddio cyfres gynhwysfawr o fesurau, a arweinir gan y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael.
- Mae'r gofyniad i brofi gwartheg yn aml yn rhoi straen ar dda byw ac yn peri risg uchel o anaf a hyd yn oed marwolaeth i'r rhai sy'n ymwneud â chynnal profion ar gyfer TB buchol.
- Mae'r methiant parhaus i fynd i'r afael â TB buchol yn peri lefelau sylweddol o broblemau iechyd meddwl ymhlith teuluoedd sy'n ffermio a phobl mewn rolau cysylltiedig.
- Mae angen ymdrin ag achosion o'r clefyd ar ddaliadau mewn modd sensitif drwy gyfathrebu'n effeithiol ac yn symlach.
- Dylai fod gan fwrdd y rhaglen ddileu gynrychiolaeth gytbwys gan gynnwys yr holl randdeiliaid yr effeithir arnynt.”

Eiliwyd y cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigwyr ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

**PENDERFYNWYD cefnogi'r Cynnig.**

**8. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**9. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan yr Aelodau.

**10. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)**

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar agenda o dan 10.1 – 10.8 ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

________________________ ________________________
**CHAIR** **DATE**